

Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Ein cynllun ar gyfer Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf – 2020 hyd at 2040




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Crynodeb pobl ifanc

Rydyn ni i gyd yn cynllunio:



Mae cynllunio'n bwysig - mae'n gosod eich cyfeiriad - ac yn eich helpu i wneud penderfyniadau.

Yng Nghymru, rydym yn cynllunio'r ffordd rydyn ni'n defnyddio adnoddau a thir, beth rydyn ni'n ei adeiladu, a lle rydyn ni'n adeiladu.

Mae'r system gynllunio hon yn gweithio:

- **yn lleol** – mae cynghorau lleol yn ysgrifennu Cynllun Datblygu Lleol
- **yn rhanbarthol** – mae cynghorau a sefydliadau eraill yn gweithio gyda'i gilydd i wneud cynlluniau rhanbarthol

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud cynlluniau i gefnogi

Cymru gyfan. Rydym yn cynllunio oherwydd ein bod am i Gymru fod yn gynaliadwy a ffyniannus.



Cynaliadwy – rhywbeth a all bara a pharhau i fynd i mewn i'r dyfodol.



Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw ein cynllun i lunio Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf - 2020 hyd at 2040.

Mae'n nodi:

- **ein nodau ar gyfer Cymru**
- **lle rydyn ni'n credu y dylai cyllid a buddsoddiadau fynd**
- **lle y dylai datblygu ddigwydd**

Oherwydd, pan mae 'na gynllun - mae'n haws i wybod beth sy'n bwysig a beth sydd ddim.



Sut mae'r system gynllunio yn gweithio

Mae'n rhaid i gynlluniau lleol a rhanbarthol gynnwys llawer o bethau gwahanol.

Pan fydd cynllunwyr yn gwneud penderfyniadau am gynigion datblygu newydd, maen nhw'n meddwl am y canlynol:

- a fydd yn cefnogi neu'n niweidio cymunedau?
- a yw'n defnyddio arian ac adnoddau yn y ffordd orau?
- a yw'n angenrheidiol?
- a fydd yn helpu'r economi i dyfu?
- a fydd yn cefnogi arloesedd ac yn hyrwyddo busnes newydd?
- faint o swyddi fydd yn dod yn ei sgil?
- all yr ardal ymdopi â'r newid?
- faint o **seilwaith** ychwanegol fydd ei angen?
- a fydd yn rhoi pwysau ar wasanaethau megis canolfannau iechyd neu ysgolion?
- a fydd yn diogelu ac yn hybu iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru?
- a fydd yn diogelu neu'n niweidio'r amgylchedd?
- ydy'r gymuned yn rhan o'r cynlluniau?




Seilwaith – systemau a rhwydweithiau o ffyrdd, dŵr, pŵer, gwasanaethau a chyfleusterau.

Rydym am i gynlluniau lleol a rhanbarthol gynnwys yr hyn sy'n iawn ar gyfer eu hardal a beth sy'n iawn i Gymru.

Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn helpu cynghorau ac eraill sicrhau bod eu cynlluniau yn ffitio gyda'i gilydd ac yn ein helpu i gyrraedd ein nodau.

- Nid yw'n disodli cynlluniau lleol.
- Nid yw'n disodli cynlluniau rhanbarthol.
- Mae'n gweithio gyda chyfreithiau a pholisïau eraill ar draws Cymru.



Ein 11 o nodau ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf

- 1** Cymru lle mae pobl yn byw ac yn gweithio mewn mannau cysylltiedig, cynhwysol ac iach y gall pawb fod yn rhan o.



Gall cynllunio da wneud cymunedau:

- **yn gysylltiedig** – gyda'r rhwydweithiau trafnidiaeth, rhyngrwyd a ffôn cywir
- **yn gynhwysol** – bodloni anghenion pobl ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hoedran
- **yn iach** – gyda'r cartrefi, swyddi, gwasanaethau, hamdden a mannau cyhoeddus cywir

- 2** Cymru lle mae pobl yn byw mewn llefydd gwledig bywiog gyda mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau.



Gall cynllunio da wneud mannau gwledig:

- **yn gynaliadwy** – yn llawn bywyd a gweithgarwch
- **yn wych i bob oedran** – gallu diwallu anghenion pobl

- 3** Cymru'n lle rydyn ni'n mynd i'r afael ag iechyd ac anghydraddoldeb drwy dwf.



Gall cynllunio da:

- **greu cyfleoedd** – denu busnesau, cartrefi gwell a swyddi
- **gwella bywydau pobl** a lleihau tlodi

- 4** Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.



Gall cynllunio da:

- **amddiffyn cymunedau Cymraeg** eu hiaith a hybu datblygiadau newydd sy'n caniatáu i bobl i siarad Cymraeg

- 5** Cymru lle mae pobl yn byw ac yn gweithio mewn dinasoedd a threfi sy'n tyfu.



Gall cynllunio da:

- **sicrhau bod datblygu yn gweithio**
- **ddefnyddio buddsoddiad yn y ffyrdd cywir**

- 6** Cymru lle mae pobl yn byw mewn lleoedd sy'n hyrwyddo ffyniant, arloesedd a diwylliant.



Gall cynllunio da:

- **ddod â busnesau, swyddi a gweithgareddau**
- **archwilio technolegau newydd**, edrych ymlaen a datblygu sgiliau newydd
- **denu pobl o bob rhan o'r byd**

mwyr o ganlyniadau:

7

Cymru lle mae teithio yn gynaliadwy.



Gall cynllunio da:

- ddatblygu rhwydweithiau trafnidiaeth gwell
- wella trafnidiaeth gyhoeddus – lleihau'r angen i ddefnyddio ceir

8

Cymru lle gall pobl gysylltu â seilwaith digidol mawr.



Gall cynllunio da:

- sicrhau bod pawb yn cael band eang cyflym
- datblygu rhwydweithiau ffôn gwell – symud i 5G

9

Cymru lle mae lleoedd yn rheoli adnoddau naturiol ac yn lleihau llygredd.



Gall cynllunio da:

- ddiogelu adnoddau naturiol – gan gynnwys yr arfordir, coedwigoedd, dŵr a mwynau
- lleihau llygredd

10

Cymru'n lle mae ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig.



Gall cynllunio da:

- werthfawrogi a gwarchod natur – ein coedwigoedd, bywyd gwylt, blodau a phryfed

11

Cymru lle mae pobl yn byw mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.



Gall cynllunio da:

- wynebu heriau'r argyfwng hinsawdd
- hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy a cherbydau trydan



Ecosystemau – planhigion ac anifeiliaid sydd yn gysylltiedig ac yn byw gyda'i gilydd

Bioamrywiaeth – gwahanol blanhigion, anifeiliaid a micro-organebau yn byw mewn un ardal.

Lle bydd Cymru yn tyfu

Cefnogi ein hardaloedd trefol


Mae gan ddinasoedd a threfi gymysgedd o bethau agos at ei gilydd:

- cartrefi a gwestai
- siopau a bwytai
- gwasanaethau iechyd ac addysg
- trafnidiaeth a thwristiaeth
- hamdden a diwylliant

Mae ganddynt y seilwaith, y cryfder a'r adnoddau i ymdopi â newid.

Mae hwn yn gyfle i edrych ar sut yr ydym yn cynllunio canol trefi a chanol dinasoedd. Mae eu rôl yn newid. Maen nhw bellach yn fannau lle mae pobl yn byw, yn siopa, yn ymlacio, yn gweithio ac yn cael cymorth gan wasanaethau.

Mae datblygiadau mwy o adeiladau mewn un man yn gwneud y defnydd gorau o dir ac yn gwarchod ardaloedd gwledig.



Tir ac adnoddau sy'n eiddo i gynghorau a chyrff cyhoeddus eraill

Dylai cynghorau ddefnyddio'r tir sydd ganddynt i fodloni anghenion y gymdeithas.

3

Rydym yn cefnogi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio eu tir a'u hadnoddau i wneud lleoedd cynaliadwy.

Mae hyn yn cynnwys adeiladu ysgolion, colegau, ysbytai, cartrefi fforddiadwy a phethau eraill i wella bywydau pobl.

Cefnogi ein hardaloedd gwledig

Mae angen cefnogi ac amddiffyn cymunedau gwledig.

4

Rydym am i gynlluniau lleol:

- fodloni anghenion ar gyfer tai, trafnidiaeth, busnesau a gwasanaethau.
- cefnogi busnesau newydd fel cynhyrchu bwyd a diod, ynni adnewyddadwy, twristiaeth
- cefnogi pethau sy'n dod â gwaith ac arian i ardaloedd gwledig.



Tai

Mae bwlch rhwng nifer y tai fforddiadwy sy'n cael eu hadeiladu a faint rydyn ni eu hangen. Gall cynllunio barhau i leihau'r bwlch.

5

Rydym am gael mwy o gartrefi fforddiadwy, o ansawdd da ledled Cymru.

Technoleg newidiol: ffonau symudol

Mae ffonau symudol yn rhan fawr o fywyd. Maen nhw'n ein helpu i gysylltu gyda phobl, gwaith, gwasanaethau a gwybodaeth.

Mae rhannau o Gymru lle nad ydych yn gallu cysylltu. Byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain trwy nodi Parthau Gweithredu Symudol. Dylai'r ardaloedd hyn gael eu blaenoriaethu i gael buddsoddiad gan weithredwyr rhwydwaith, darparwyr ffonau, cynghorau a Llywodraeth Cymru.

6


Rydym eisiau i gynllunio ganolbwyntio ar barthau gweithredu symudol i wella derbyniad ffôn.

Technoleg newidiol: Cerbydau Allyriadau Isel Iawn

Mae'n rhaid i ni leihau faint o garbon rydyn ni'n ei gynhyrchu. Mae hyn yn golygu symud o gerbydau petrol a disel i gerbydau trydan – Cerbydau Allyriadau Isel Iawn.

7

Rydym eisiau mwy o seilwaith ar gyfer Cerbydau Allyriadau Isel Iawn. Mae hyn yn golygu cael mwy o leoedd gwefru trydan a phwyntiau gwefru cyflym i helpu pobl i deithio pellteroedd hirach.



Cefnogi seilwaith gwyrdd

Mae angen gwerthfawrogi natur. Mae'n lleihau llygredd, yn gwella ansawdd yr aer ac yn gwella lles corfforol a lles meddyliol.

Rhaid i gynllunio gynnwys ffyrdd i natur ffynnu a chefnogi ecosystemau.

Mewn trefi a dinasoedd mae parciau a seilwaith gwyrdd eraill yn helpu pobl i fwynhau gweithgareddau, ymlacio a chysylltu fel cymuned.

8

Rydym am i gynllunio:

- nodi ardaloedd i'w diogelu neu eu troi i mewn i leoedd ar gyfer ecosystemau
- dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau trefol



Seilwaith gwyrdd – llefydd naturiol wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio fel parciau, rhandiroedd, gerddi cymunedol a mannau gwyrdd cyhoeddus.


Datblygu coedwig genedlaethol newydd

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddatblygu cyfleoedd i gryfhau ein hecosystemau.

Mae hyn yn cynnwys datblygu coedwigoedd a choetiroedd newydd.

9

Rydym yn awyddus i gefnogi datblygu coedwig genedlaethol.



Gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau:

Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy

Mae newid hinsawdd yn achos brys. Mae Cymru eisoes yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel, ond rydym am gynhyrchu mwy. Mae cynyddu ynni adnewyddadwy yn dod â sgiliau newydd, swyddi a thechnoleg i ranbarthau tra'n diogelu ein hamgylchedd rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae angen i ni wneud yn siŵr nad yw'r datblygiadau'n niweidio cymunedau neu'n difetha tirweddau naturiol. Felly, rydym wedi gosod ein hardaloedd lle gall datblygiadau ynni gwynt a solar mawr ddigwydd.

10

Rydym yn cefnogi datblygiadau gwynt a solar mawr yn yr ardaloedd rydyn ni wedi'u nodi.

11

Rydym am i unrhyw gais y tu allan i'r meysydd blaenoriaeth brofi eu bod yn helpu i gyrraedd y targedau, gwarchod yr amgylchedd ac nad ydynt yn niweidio cymunedau.

12

Ni fyddwn yn caniatáu datblygiadau gwynt a solar mawr mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

Technolegau ynni adnewyddadwy eraill

Mae llawer o ffyrdd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy fel ynni dŵr a llanw.

13

Rydym yn cefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy eraill.

Rhwydweithiau Gwresogi Ardal

Mae Rhwydweithiau Gwresogi Ardal yn cyflenwi gwres a dŵr poeth i nifer o adeiladau o un man. Maen nhw'n gweithio'n dda mewn ardaloedd trefol - maen nhw'n costio llai ac yn defnyddio llai o garbon.



Gall rhwydwaith gwres mwy o faint gefnogi nifer fawr o fusnesau, gwasanaethau a chartrefi.

14


Rydym yn cefnogi trefi a dinasoedd sy'n datblygu Rhwydweithiau Gwresogi Ardal.

15

Rydym yn cefnogi'r gwaith cynllunio ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal ar raddfa fawr.




Cynllunio ar draws y rhanbarthau



Er mwyn i'r weledigaeth hon ar gyfer Cymru weithio mae siroedd angen cydweithio a chynllunio yn rhanbarthol.

16

Rydym am i gynghorau ac eraill weithio gyda'i gilydd a gwneud cynlluniau rhanbarthol. Rhaid iddyn nhw gynnwys a gwrando ar gymunedau. Mae gwrando yn helpu i wneud y penderfyniadau cywir.



Rhanbarth Gogledd Cymru




700,000

o bobl yn
byw yma.



Mae ganddi lawer o
ardaloedd gwledig.

Mae



o'r boblogaeth yn
byw mewn mannau
sydd â llai na
25,000
o bobl.



Mae

200,000

yn siarad
Cymraeg.




Ar hyd yr arfordir
mae perygl o
lifogydd.



Mae cysylltiadau
ffyrdd a rheilffyrdd
da ar hyd yr arfordir.



Mae gweddill yr
ardal yn defnyddio'r
ffyrdd yn bennaf.



17

Rydym yn cefnogi
canolbwyntio datblygu
o gwmpas Wrecsam a
Glannau Dyfrdwy.

19

Rydym yn cefnogi ardaloedd
llain las newydd sy'n cysylltu
â rhai yng Ngorllewin Swydd
Gaer a Chaer.



Llain las – ardal
o dir agored lle
na chaniateir i chi
adeiladu.

21

Rydym am wella cysylltiadau
trafnidiaeth i Ogledd Orllewin
Lloegr. Mae hyn yn cynnwys
cynlluniau ar gyfer Metro
Gogledd Cymru.

18

Rydym yn cefnogi twf a reolir yn
y trefi a'r dinasoedd ar hyd yr
arfordir o Gaernarfon i Lannau
Dyfrdwy.

20

Rydym yn cefnogi datblygiad
Porthladd Caergybi. Mae hyn yn
cynnwys denu llongau pleser.

22

Rydym yn cefnogi Gogledd Orllewin Cymru fel
lleoliad ar gyfer datblygiadau ynni newydd a
buddsoddi.

Bydd ceisiadau ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu
ynni niwclear yn ystyried:

- yr angen am ynni anadnewyddadwy
- yr amgylchedd naturiol a hanesyddol
- y manteision economaidd i'r rhanbarth

Canolbarth a De Orllewin Cymru




900,000
o bobl yn
byw yma.



Mae ganddo lawer o
gyfleoedd ar gyfer ynni
adnewyddadwy.

0%

Nid oes unrhyw
drefi ym Mhowys,
Ceredigion neu Sir
Benfro yn fwy na
25,000 o bobl.



Mae **50%** ym Mhowys
yn byw mewn
mannau gyda llai na
2000 o bobl.



Mae'n ardal eang sy'n
cynnwys:

- ail ddinas Cymru
- dau barc cenedlaethol
- rhai o ardaloedd mwyaf
gwledig y DU
- llawer o ardaloedd
ffermio



Mae ganddo lefelau is
o gludiant cyhoeddus a
chysylltiad na rhannau
eraill o Gymru.

23

Rydym am ganolbwyntio
datblygiad o amgylch Bae
Abertawe a Llanelli.

24

Rydym yn cefnogi twf a
reolir yng Nghaerfyrddin,
Llandrindod, Y Drenewydd,
Aberystwyth a'r pedair tref y
Dau Gleddau.

25

Rydym yn awyddus i
barhau buddsoddi yn a
datblygu ardal harbwr
Dyfrffordd y Ddau
Gleddau.

26

Rydym yn cefnogi datblygu
Metro yn Abertawe.


De Ddwyrain Cymru



Mae dros
1.5 miliwn
o bobl yn byw yma.



Tyfodd y boblogaeth
dros **9%** rhwng
1997-2017.



Mae'r ardal yn dod â



o gyfanswm allbwn
economaidd
economi Cymru.



Porthladdoedd
yng Nghaerdydd,
Casnewydd a'r
Barri.



Mae gan y
rhanbarth faes
awyr.



o anghenion tai
yng Nghymru.

27

Rydym am i Gaerdydd i gadw ei rôl
fel prif ddinas. Rydym yn cefnogi
cynlluniau sy'n dod â chyfleoedd ac
yn ein helpu ni i wynebu heriau.

28

Rydym am i Gasnewydd i fod yn ganolbwynt ar
gyfer twf a buddsoddiad. Mae hyn yn cynnwys
datblygu tai, busnes, gwasanaethau, cludiant a
phethau eraill.

29

Rydym yn cefnogi twf a buddsoddiad
yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Mae
hyn yn cynnwys rhannau gogleddol
Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful,
Caerffili a Blaenau Gwent.

30

Rydym am gael Lleiniau Glas yn
**Ne Ddwyrain Cymru, o amgylch
Casnewydd a rhan ddwyreiniol y
rhanbarth.** Dylent gysylltu i'r llain las o
amgylch Bryste.

31

Rydym yn cefnogi
datblygu Metro yn
Ne Cymru.

32

Rydym yn cefnogi twf a
datblygiad Maes Awyr
Caerdydd.

33

Rydym yn cefnogi
sefydlu Parc Tirwedd
y Cymoedd.

Diolch am ddarllen hwn

Mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym yn y ffyrdd cywir.

Er mwyn ein helpu ysgrifennu'r cynllun hwn rydym wedi:

- cynnwys pobl sy'n gweithio ym maes cynllunio ledled Cymru
- siarad â chymunedau
- edrych ar dystiolaeth ac ymchwil am yr hyn sydd wedi gweithio mewn mannau eraill

Fe wnaeth hyn ein helpu i ddeall lle gallwn ddatblygu. Fe wnaeth ein helpu i wneud penderfyniadau ar gyfer Cymru.

Ond mae Cymru yn newid. Efallai y bydd angen i'r cynllun hwn addasu a newid hefyd.

I gymryd rhan a dweud eich dweud:



llyw.cymru/ymgyngoriadau

Anfonwch ei ymateb erbyn:



1^{af} Tachwedd 2019

I ddysgu mwy:



ffdc@llyw.cymru



0300 025 3261



[gweddill.gov.wales/topics/planning/
national-development-framework-for-wales/?skip=1&lang=cy](https://gweddill.gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/?skip=1&lang=cy)



OGL © Hawlfraint y Goron

WG38413

ISBN Digidol 978-1-83876-651-1